

1956 - 2006

Ardal o Harddwch Naturiol
Eithriadol Llŷn - Dathlu 50 Mlynedd



*Gweithgareddau i'r teulu
Teithiau cerdded
Cyrsiau sgiliau traddodiadol
Sgyrsiau amrywiol
Cystadlaethau*



1956 - 2006



Llŷn Area of Outstanding
Natural Beauty
- Celebrating 50 Years



Family activities
Guided walks
Traditional skills workshops
Talks
Competitions



Yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol

Dynodwyd rhan o Benrhyn Llŷn yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) yn ôl yn 1956; eleni felly mae hanner can mlynedd ers y digwyddiad pwysig hwnnw. Mae oddeutu chwarter y Penrhyn yn yr ardal ddynodedig, gyda'r rhan fwyaf yn dir arfordirol ond hefyd yn ymestyn i gynnwys yr ardal o amgylch Garn Fadryn. Mae'r map isod yn dangos union ffiniau'r AHNE:



Llŷn

Mae arfordir amrywiol a diddorol a'r tirlun hardd yn nodweddion amlwg yn Llŷn ond mae llawer o rinweddau eraill sy'n cyfrannu at gymeriad unigryw'r ardal. O ran bywyd gwyllt mae gan Llŷn arwynebedd eang o rostir sy'n gynefin prin trwy Ewrop ac mae yn hafan i adar megis y frân goesgoch. Mae hefyd yn ardal hanesyddol gyfoethog, gydag olion archeolegol a hanesyddol amrywiol yn cynnwys ceirydd Oes yr Haearn, olion hen ddiwydiannau ac adeiladau hanesyddol o bob math. Hefyd mae'r iaith a diwylliant Cymreig yn rhan annatod o gymeriad yr ardal.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth am rinweddau AHNE Llŷn mae'r Uned wedi trefnu digwyddiadau yn ystod 2006 i gyd fynd â'r hanner can mlwyddiant. Mae gwybodaeth wedi ei gynnwys yn y daflen hon. Am fwy o wybodaeth neu ar gyfer cofrestru ar gyfer un o'r digwyddiadau, cyysylltwch â'r Uned AHNE:

UNED AHNE LLŷN
Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth
Cyfadran Amgylchedd
Cyngor Gwynedd

Pwllheli,
LL535AA

Ffôn: 01758 704155/1176

Ebost: AHNELlynAONB@gwynedd.gov.uk



The Area of Outstanding Natural Beauty

Part of the Llŷn Peninsula was designated as an Area of Outstanding Natural Beauty (AONB) back in 1956; this year therefore marks fifty years since this important event. The designated area covers around a quarter of the peninsula, with the majority being coastal land, but also extending inland to the area around Garn Fadryn. The map below shows the boundaries of the AONB:



Llŷn

Llŷn is famed for the unrivalled beauty of its landscape, and its varied and interesting coastline; but it has many other virtues which contribute to the area's unique character. Llŷn has a vast area of heathland; a habitat which is rare throughout Europe and is a haven for wildlife and birds such as the chough. It is also a rich historic legacy, with a variety of archaeological and historic remains such as Iron Age hill-forts, remains of old industries and historical buildings of every kind. The Welsh language and culture are also an important and inherent part of the area's character.

In order to raise awareness of the special qualities of Llŷn AONB, the Unit has organized events for 2006, to coincide with the anniversary celebrations. Details are provided in this leaflet. For further details or to register for any of the events, please contact the AONB Unit:

LLŷN AONB UNIT

Planning and Transportation Service

Environment Directorate

Gwynedd Council

Pwllheli,

LL535AA

Phone: 01758 704155/176

Email: AHNELlynAONB@gwynedd.gov.uk



Calendr Digwyddiadau

Dyddiad

Digwyddiad

Mai

- 13 Taith Gerdded ar Garn Fadryn
25 a 26 Cwrs Walio Cerrig Sych

Mehefin

- 2 Cwrs Codi Cloddiau Pridd
15 Sgwrs 'Adar Gwyllt Llŷn'
10-18 Wythnos Bioamrywiaeth
24 Taith Gerdded 'Adar Y Môr ar Drwyn Cilan'

Gorffennaf

- 1 Taith Gerdded ar Garn Fadryn
8 Taith Gerdded 'Botwnnog a'r Cylch'
15 Gweithdy Tŷ Pridd
22 Taith Gerdded 'Planhigion ac Adar Cilan'

Awst

- 13 Tacluso Traeth, a Chelf Amgylcheddol
28 Taith Gerdded 'Meini Hirion'

Medi

- 6 Sgwrs 'Ffynhonnau Llŷn'
21 Sgwrs 'Plastai Llŷn a'u Dylanwad ar y Tirlun'
24 Taith Gerdded 'Rhostiroedd Llŷn'

Hydref

- 5 Sgwrs 'Cymeriad Amrywiol Arfordir Llŷn'
22 Gwobrwyo Cystadleuaeth Hud a Lledrith Llŷn
26 Sgwrs 'Smyglwyr Llŷn â'r Ardal'
27 Dyddiad Cau Cystadleuaeth Tynnu Llundiau AHNE Llŷn



Am fanylion llawn, gweler tudalen 4 ymlaen

Cadwch lygaid ar wefan AHNE Llŷn hefyd am newyddion pellach:
www.gwynedd.gov.uk/AHNE

Events Calendar

Date

Event

May

13th Guided Walk on Garn Fadryn
25th & 26th Dry Stone Walling Course

June

2nd 'Cloddiau' Workshop
15th Talk: 'Wild Birds of Llŷn'
10th-18th Gwynedd Biodiversity Week
24th Guided Walk: 'Sea Birds on Trwyn Cilan'

July

1st Guided Walk on Garn Fadryn
8th Guided Walk: 'In and Around Botwnnog'
15th Earthouse Workshop
22nd Guided Walk: 'Bird and Plantlife of Llŷn'

August

13th Beach Clean-up and Environmental Art
28th Guided Walk: 'Standing Stones and their Silent Language'

September

6th Talk: 'The Wells of Llŷn'
21st Talk: 'Llŷn's Mansions and their Influence on the Landscape'
24th Guided Walk: 'Llŷn's Heathlands'

October

5th Talk: 'The Character of Llŷn's Coastline'
22nd Prize Day, The Spirit of Llŷn Art Competition
26th Talk: 'Smugglers of Llŷn and the Area'
27th Closing Date for the Llŷn AONB Photography Competition



For full details, see page 4 onwards

Keep your eye on the AONB website too for further news:
www.gwynedd.gov.uk/AONB

Cystadlaethau

Cystadleuaeth Tynnu Lluniau AHNE Llŷn

Oherwydd bod hanner can mlynedd ers dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn eleni, mae'r Uned AHNE yn cynnal cystadleuaeth tynnu lluniau fel rhan o'r dathliadau. Rydym yn edrych am luniau o'r ardal sydd yn arddangos dawn greadigol, cyfansoddiad gwreiddiol a linc gref â thema'r gystadleuaeth.

Thema'r gystadleuaeth yw: Rhinweddau Llŷn

Ydy'r ardal yma'n eich ysbrydoli? Beth ydych chi'n meddwl sy'n gwneud Llŷn yn ardal mor arbennig? Dangoswch i ni!

Gweler tudalennau canol y pamffled am ragor o wybodaeth, rheolau'r gystadleuaeth a ffurflen gais.

Cystadleuaeth Gelf 'Hud a Lledrith Llŷn'

- yn dathlu amgylchedd naturiol Cymru



Oherwydd ei bod yn flwyddyn bwysig i Ardaloedd o Harddwch eleni, penderfynodd y trefnwyr mai thema'r gystadleuaeth ar gyfer 2006 fydd **Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol Cymru**. Bydd y gystadleuaeth yn galluogi artistiaid i gyflwyno gwaith yn seiliedig ar y 5 ardal ddynodedig sydd dan warchodaeth yng Nghymru. Eto eleni bydd gwobrau hael yn cael eu cynnig i ymgeiswyr.

Meddai Gwyn Jones, Cyfarwyddwr yr Oriol - "Pleser yw cael cyhoeddi y bydd cystadleuaeth ag arddangosfa gelf boblogaidd Hud a Lledrith Llŷn yn ail gychwyn 'leni. Bu'r ddwy gystadleuaeth flaenorol yn rai hynod lwyddiannus, gan ddenu gwaith celf o'r radd flaenaf i Oriol Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog".

Bydd taflen a ffurflen gais ar gyfer cystadleuaeth 2006 ar gael ym mis Mai, gydag enillwyr y gystadleuaeth yn cael eu cyhoeddi ar agoriad yr arddangosfa ar Hydref 22ain.



**Mae manylion am y gystadleuaeth i'w cael ar www.oriel.org.uk
neu ffoniwch Oriol Plas Glyn-y-Weddw ar 01758 740763**

Competitions

Llŷn AONB Photography Competition

As we are celebrating 50 years since designating Llŷn as an Area of Outstanding Natural Beauty this year, The AONB Unit has decided to arrange a photography competition as part of the celebrations. We are looking for photographs of the area that show a creative flair, an original composition and a strong link with the competition's theme.

Theme of competition: Special Qualities of Llŷn

Does this area inspire you? What do you think makes Llŷn such a special place? Show us!

See the centre pages of this leaflet for further details, the competition rules and an application form.

'Spirit of Llŷn' Art Competition

- celebrating the natural environment of Wales



As it is such an important year for Areas of Outstanding Natural Beauty, the organisers decided that the theme of the 2006 competition will be: **Areas of Outstanding Natural Beauty in Wales**. The competition will allow artists to present work based upon the 5 designated areas under protection in Wales. There are generous prizes on offer again this year.

Gwyn Jones, Director of the Oriel says - "It is a pleasure to announce that the popular art competition and exhibition Spirit of Llŷn will be returning this year. The competition has been successfully held twice in the past, attracting art work of the highest grade to Oriel Plas Glyn-y-Weddw, Llanbedrog".

A Leaflet and application form for the 2006 competition will be available in May, and the winners will be announced at the opening of the exhibition on the 22nd of October.



Details of the competition can be found on www.oriel.org.uk, or phone Oriel Plas Glyn-y-Weddw on 01758 740763

DIGWYDDIADAU AHNE LLŶN, 2006

Mae'r gweithgareddau i gyd yn rhad ac am ddim, ond gofynnir i chi gofrestru gyda'r Uned os ydych yn bwriadu mynychu.

Dewch â phegyn bwyd, fflasg a dillad addas hefo chi. Peidiwch ag anghofio'ch camera a'ch 'sbiendrych! Dim cŵn ar y teithiau cerdded os gwelwch yn dda.

Mai

Dydd Sadwrn 13 Mai

Taith Gerdded 'Garn Fadryn'

Cymraeg



Taith dywysedig i Gaer Carn Fadryn, gan drafod chwedloniaeth a llên gwerin sy'n gysylltiedig â'r ardal.

Man cyfarfod: Maes parcio Garn Fadryn, ger y capel. SH278345.

Amser: 10:30

Arweinydd: Tiwtoriaid o'r Felin Uchaf

Dydd Iau a Dydd Gwener 25/26 Mai

Cwrs Sgiliau Traddodiadol – Codi Waliau Cerrig

Dwyieithog



Cwrs addas i ddechreuwyr, cewch ddysgu brif egwyddorion y grefft, sydd yn fodd i gynnal un o nodweddion traddodiadol yr ardal.

Cwrs dau ddiwrnod wedi ei drefnu a'i ariannu ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Lantra.

Mae llefydd ar y cwrs yn gyfyngedig, ac mae gofyn i chi gofrestru erbyn Mai 19.

Mehefin

Dydd Gwener 2 Mehefin

Cwrs Sgiliau Traddodiadol – Codi Cloddiau Pridd

Dwyieithog

Mae cloddiau yn nodwedd amlwg a thraddodiadol yn Llŷn - dewch i gael blas ar y grefft o'u hadeiladu yn effeithiol a chywir.

Cwrs undydd wedi ei drefnu a'i ariannu ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a Lantra.

Mae llefydd ar y cwrs yn gyfyngedig, ac mae gofyn i chi gofrestru erbyn Mai 19.



LLŶN AONB EVENTS, 2006

All events are free of charge, but we ask that you register your place on any event by getting in touch with the AONB Unit. All talks are through the medium of welsh, but translation equipment will be available on request when booking.

Bring your lunch, flask and plenty of suitable clothes. Don't forget your camera and binoculars! No dogs on the walks please.

May

Saturday 13 May

Guided Walk on Garn Fadryn

Welsh



A Guided Walk to Garn Fadryn hillfort, looking at ancient mythology and folklore associated with the area.

Meeting Point: Garn Fadryn car park, near the chapel. SH278345

Time: 10:30am

Guides: Tutors from Y Felin Uchaf

Thursday 25th & Friday 26th May

Traditional Skills Course – Dry Stone Walling

Bilingual



Suitable for beginners, you can learn the basic principles of this craft, which is a way of sustaining one of the area's traditional features.

A two-day course arranged and financed jointly by Gwynedd Council and Lantra.

Places on the course are restricted, and you need to register by May 19th.

June

Friday 2nd June

Traditional Skills Course – 'Cloddiau' Workshop

Bilingual

Cloddiau are prominent and traditional features on the Llŷn Peninsula, get a taste of how to build these correctly and effectively.

A one-day course arranged and financed jointly by Gwynedd Council and Lantra.

Places on the course are restricted, and you need to register by May 19th.



Nos Iau 15 Mehefin

Sgwrs, 'Adar Gwyllt Llŷn'

Cymraeg

Amser: 7:30 y.h.

Lleoliad: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Sgwrs gan Gwen Thomas, Cymdeithas Frenhinol dros Warchod Adar.

Dydd Sadwrn 10 – Dydd Sul 18 Mehefin

Wythnos Bioamrywiaeth

Mae Gweithgareddau trwy gydol yr wythnos.

Gweler www.gwynedd.gov.uk/bioamrywiaeth am ragor o wybodaeth.

Dydd Sadwrn 24 Mehefin

Taith Gerdded 'Adar y Môr ar Drwyn Cilan'

Cymraeg

Taith gerdded ar y gwastad, tua 3-4 milltir yn edrych ar glogwyni'r arfordir a golygfeydd dros fae Porth Neigwl hyd at Ynys Enlli.

Man cyfarfod: Maes Parcio Mynydd Cilan, Lôn Lâs. SH294247

Amser: 10:30

Arweinydd: Twm Elias. Taith wedi ei darparu gan Gymdeithas Ted Breeze Jones.

Gorffennaf

Dydd Sadwrn 1af Gorffennaf

Taith Gerdded 'Garn Fadryn'

Saesneg

Taith dywysedig i Gaer Carn Fadryn, gan drafod chwedloniaeth a llên gwerin sy'n gysylltiedig â'r ardal.

Man cyfarfod: Maes parcio Garn Fadryn, ger y capel. SH278345

Amser: 10:30

Arweinydd: Tiwtoriaid o'r Felin Uchaf



Thursday, 15 June

Talk: 'The Wild Birds of Llŷn'

Welsh - translation facilities available

Time: 7:30 pm

Location: Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

A talk by Gwen Thomas, RSPB.

Saturday 10 – Sunday 18 June

Biodiversity Week

Events throughout the week.

See www.gwynedd.gov.uk/biodiversity for further details

Saturday 24 June

Guided Walk 'Sea Birds at Trwyn Cilan'

Welsh

A 3-4 mile walk, looking at sea birds whilst also taking in the sea cliffs and views over Porth Neigwl all the way to Bardsey.

Meeting Point: Mynydd Cilan Car Park, Lôn Las, Cilan. SH294247

Time: 10:30am

Guide: Twm Elias. A walk organised by the Ted Breeze Jones Society.

July

Saturday 1 July

Guided Walk on Garn Fadryn

English

A Guided Walk to Garn Fadryn hillfort, looking at ancient mythology and folklore associated with the area.

Meeting Point: Garn Fadryn car park, near the chapel. SH278345

Time: 10:30am

Guides: Tutors from Y Felin Uchaf



Dydd Sadwrn 8 Gorffennaf **Taith Gerdded 'Botwnnog a'r Cylch'**

Cymraeg

Cylchdaith yn cychwyn o Fotwnnog, ac yn ymweld â'r ardal o amgylch gan sôn am hanes diddorol yr ardal. Taith o tua 7/8 milltir, a byddwch yn barod am ddiwrnod llawn o gerdded ar dirwedd sy'n amrywio.

Man cyfarfod: Ar ochr y ffordd ger Ysgol Botwnnog. SH263314.

Amser: 10:30

Arweinydd: Richard Jones. Taith wedi ei darparu gan Gymdeithas Edward Llwyd.

Dydd Sadwrn 15 Gorffennaf **Gweithdy adeiladu Tŷ Pridd**

Dwyieithog

Gweithdy I diwrnod yn Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun. Dewch i fod yn rhan o'r prosiect arloesol yma. Cewch gyfle i ddsygu sgiliau traddodiadol wrth greu'r adeilad. Byddwch yn barod i gael mwd ar eich dwylo!

Man cyfarfod: Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun. SH204288.

Amser: 10:30

Hwyluswyr: Tiwtoriaid o'r Felin Uchaf

Dydd Sadwrn 22 Gorffennaf **Taith Gerdded 'Planhigion ac Adar Cilan'**

Dwyieithog



Taith i gerdded o gwmpas mynydd Cilan hefo Swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd i weld bywyd gwyllt yr ardal.

Man cyfarfod: Maes Parcio, Mynydd Cilan, Lôn Lâs. SH294247.

Amser: 2:00 y.h.

Arweinwyr: Rhys Jones, Emily Meilleur; Uwch Swyddogion Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd



Saturday, 8 July

Guided Walk 'In and Around Botwnnog'

Welsh

A circular walk starting in Botwnnog, visiting the surrounding area learning about it's interesting history. A 7/8 mile walk, be ready for a full day of varied pace.

Meeting Point: On the roadside by Ysgol Botwnnog. SH263314

Time: 10:30am

Guide: Richard Jones. A walk organised by the Edward Llwyd Society.

Saturday, 15 July

Hands on – Earthouse Workshop

Bilingual

1 day workshop at Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun. Help construct an innovative building, learn traditional building techniques, and be ready to get your hands dirty!

Meeting Point: Y Felin Uchaf, Rhoshirwaun. SH204288

Time: 10:30am

Facilitators: Tutors from Y Felin Uchaf

Saturday, 22 July

Guided Walk, 'Bird and Plantlife of Llŷn'

Bilingual



A Guided Walk around mynydd Cilan, looking at the wildlife of the area with Gwynedd Council Biodiversity Officers.

Meeting Point: Mynydd Cilan Car Park, Lôn Las. SH294247

Time: 2:00pm

Guides: Rhys Jones, Emily Meilleur; Senior Biodiversity Officers Gwynedd Council



Awst

Dydd Sul 13 Awst

Tacluso Traeth a Chelf Amgylcheddol... Porth Neigwl Dwyieithog

Nid oes angen cofrestru ar gyfer y gweithgaredd yma.

Cyfle am bawn o hwyl, a gwella'r amgylchedd hefyd! Cystadleuaeth i greu'r cerflun gorau allan o sbwriel a gasglwyd. Bydd gwobr i oreuon y diwrnod!

Man cyfarfod: Maes Parcio Porth Neigwl. SH284265

Amser: 12:00

Hwyluswyr: Tiwtor o'r Felin Uchaf

Dydd Llun 28 Awst

Taith a Sgwrs 'Meini Hirion' Dwyieithog

Cyfle i gael hanes a chefnidir meini hirion sy'n britho'r ardal. Sut a pha bryd y cawsant eu codi? A beth yw eu arwyddocâd?

Man cyfarfod: Mynydd Carnguwch. SH377424.

Amser: 10:30

Arweinwyr: Tiwtoriaid o'r Felin Uchaf

Medi

Nos Fercher 6 Medi

Sgwrs, 'Ffynhonnau Llŷn' Cymraeg

Amser: 7:30 y.h.

Lleoliad: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Sgwrs gan Eirlys Gruffydd, Cymdeithas Ffynhonnau Cymru

Nos Iau 21 Medi

Sgwrs, 'Plastai Llŷn a'u Dylanwad ar y Tirlun' Cymraeg

Amser: 7:30 y.h.

Lleoliad: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Sgwrs gan John Dilwyn Williams, Swyddog Archifau Cyngor Gwynedd



August

Sunday, 13 August

Environmental Art and Beach Cleanup

English

There is no need to register for this activity

A chance for an afternoon of fun, whilst also improving the environment! A competition to create the best sculpture using litter collected. Prizes for the best of the day!

Meeting Point: Porth Neigwl (Hell's Mouth) Carpark. SH284265

Time: 12:00pm

Facilitators: Tutors from Y Felin Uchaf

Monday, 28 August

Guided Walk 'Standing Stones and Their Silent Language' Bilingual

A chance to get the history behind these standing stones which are scattered throughout the countryside of this area. How and why were they put there? What is their significance?

Meeting Point: Mynydd Carnguwch. SH377424

Time: 10:30am

Guides: Tutors from Y Felin Uchaf

September

Wednesday, 6 September

Talk: 'Llyn's Wells'

Welsh - translation facilities available

Time: 7:30pm

Location: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

A talk by Eirlys Gruffydd, Cymdeithas Ffynhonnau Cymru

Thursday, 21 September

Talk: 'Llyn's Mansions and their Influence on the Landscape' Welsh - translation facilities available

Time: 7:30pm

Location: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

A talk by John Dilwyn Williams, Education Officer Gwynedd Council



Dydd Sul 24 Medi

Taith Gerdded, 'Rhostiroedd Llŷn'

Cymraeg



Taith gerdded ar Fynydd Tir Cwmwd, Llanbedrog. Dewch i weld a chlywed am safle sydd â diddordeb arbennig oherwydd ei nodweddion daearegol a botanegol. Mae gwaith gwella ac adfer y rhostir wedi ei wneud dan ofal Prosiect Cadw'r Lliw yn Llŷn.

Man cyfarfod: Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Amser: 2:00 y.h.

Arweinydd: Arwel Jones, Swyddog Prosiect Cadw'r Lliw yn Llŷn.

Hydref

Nos Iau 5 Hydref

Sgwrs, 'Cymeriad Amrywiol Arfordir Llŷn'

Cymraeg

Amser: 7:30 y.h.

Lleoliad: Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Sgwrs gan Elfed Gruffydd, awdur lleol

Dydd Sul 22 Hydref

Gystadleuaeth ac Arddangosfa 'Hud A Lledrith Llŷn'

Diwrnod Gwobrwyo'r Gystadleuaeth Gelf ac agor yr arddangosfa yn Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog.

Amrywiaeth o gelf a chrefft gan nifer o artistiaid, gyda'r arddangosfa'n rhedeg hyd at y Nadolig.

Nos Iau 26 Hydref

Sgwrs, 'Smyglwyr Llŷn a'r Ardal'

Cymraeg

Amser: 7:30 y.h.

Lleoliad: Oriel Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Sgwrs gan Twm Elias

Cofiwch archebu eich lle ar pob gweithgaredd!



Sunday, 24 September
Guided Walk, 'Llŷn's Heathlands'

Welsh



A Guided Walk on Mynydd Tir Cwmwd. Come to see and hear about this site, which is of special interest in terms of geology and botany. A project - Cadw'r Lliw yn Llŷn has been working to improve and restore the heathland.

Meeting Point: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

Time: 2:00pm

Guide: Arwel Jones, Cadw'r Lliw yn Llŷn Project Officer.

October

Thursday, 5 October

Talk: 'The Character of Llŷn's Coastline' **Welsh** - translation facilities available

Time: 7:30pm

Location: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

A talk by Elfed Gruffydd, a local author.

Sunday, 22 October

Competition and Exhibition, 'The Spirit of Llŷn'

Prizegiving for the Art Competition, and the official opening of the exhibition at Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog.

A variety of art and craft by a number of artists. The Exhibition will run up until Christmas.

Thursday, 26 October

Talk: 'Smugglers of Llŷn and the Area' **Welsh** - translation facilities available

Time: 7:30pm

Lleoliad: Oriol Plas Glyn y Weddw, Llanbedrog

A talk by Twm Elias.

Remember to reserve your place on the events!

Translation facilities are available for the talks, please state when registering if it is needed.



Sut i gyrraedd..?

Dyma gyfarwyddiadau yn dangos sut i gyrraedd y manau cyfarfod ar gyfer y digwyddiadau i gyd. Os ydych angen rhagor o gymorth, cysylltwch â'r Uned AHNE.

Garn Fadryn

Dilyn yr A497 allan o Bwllheli tuag at Nefyn. Ar ôl dwy filltir ar hyd y lôn, trowch i'r chwith yn Efailnewydd i fynd ar y B4415 tuag at Aberdaron. Dal ymlaen trwy Rhyd-y-clafdy ac ymhen dwy filltir arall, trowch i'r dde tuag at Lanestyn. Mae troad tuag at bentref Garn Fadryn ar y dde ymhen milltir, ac mae'r capel ar y dde yng nghanol y pentref.

Oriel Plas Glyn y Weddw

O Bwllheli, dilynwch yr arwyddion ar gyfer y A499 Llanbedrog ac Abersoch. Gwelwch arwyddion twristiaeth frown a gwyn ar y ffordd i mewn i Lanbedrog yn eich cyfeirio i droi i'r chwith i Oriel Plas Glyn y Weddw.

Cilan

Dilynwch yr A499 allan o Bwllheli nes cyrraedd Abersoch, yna ymlaen trwy Sarn Bach i Cilan. Dilynwch y ffordd heibio'r capel ar eich dde ac yna trowch i'r dde yn syth ar ôl safle bws Erw Deg. Dilynwch y ffordd i'r pen.

Botwnnog

Dilynwch y A499 allan o Bwllheli (arwydd Abersoch). Trowch i'r dde yn Llanbedrog, ac ymunwch â'r B4413. Arhoswch ar y B4413 trwy Mynytho, hyd at Fotwnnog. Troi i fyny i'r dde yng nghanol y pentref ac mae'r Ysgol ar y dde.

Porth Neigwl

Dilynwch y A499 allan o Bwllheli (arwydd Abersoch). Wedi cyrraedd Abersoch, trowch i'r dde wrth ymyl "Land and Sea". Troi i'r chwith am Langian ar ôl hanner milltir ac yna ymlaen i Lanengan. Troi i'r chwith yn y gyffordd ac ymlaen i Borth Neigwl – mae'r maes parcio ar y chwith.

Felin Uchaf

Dilynwch y A499 allan o Bwllheli, a throi i'r dde yn Llanbedrog. Yna dilyn y B4413 tuag at Aberdaron am tua 10 milltir nes cyrraedd Rhoshirwaun. Yn Rhoshirwaun, trowch i'r chwith ar ôl pasio'r modurdy, lle mae arwydd Pencaerau. Ar ôl tro sydyn i'r dde, gwelwch flwch llythyrau ar eich dde, yna trowch i'r chwith. Mae'r Felin Uchaf ar y tro nesaf i'r dde.

Mynydd Carnuwch



Dilyn yr A499 tuag at Pwllheli. Troi i'r chwith i ymuno â'r B4417 (arwydd Nefyn), ac Ymlaen trwy Llanaelhaearn yna y chwith cyntaf cyn cyrredd Llithfaen, ac yna chwith ar y groesffordd. Dilynwch y lôn hyd at Ty'n - y - Mynydd. Mae'r maes parcio ar ôl y grid gwartheg.

How do I get there..?

Here are directions showing how to reach the meeting points for all the events in this booklet. If you need further information or assistance, contact the AONB Unit.

Garn Fadryn

Take the A497 out of Pwllheli, towards Nefyn. Around two miles along that road turn left in the village of Efailnewydd to get onto the B4415 towards Aberdaron. Continue through Rhyd-y-Clafdy and about two miles on, turn towards Llaniestyn and then a mile or so along that road, turn right towards Garn Fadryn village. The chapel is on the right in the centre of the village.

Oriel Plas Glyn y Weddw

Follow the signs for the A499 to Llanbedrog and Abersoch out of Pwllheli. You will see Brown and White tourism signs on the approach to Llanbedrog directing you to turn left for Oriel Plas Glyn y Weddw.

Cilan

Follow the A499 out of Pwllheli, reaching Abersoch. Drive through Abersoch and Sarn Bach to Cilan. Keep following the road, past a chapel on your right, then keep an eye out for Erw Deg bus stop. Turn right immediately after this, and follow the road to the end.

Botwnnog

Follow the A499 out of Pwllheli (signposted Abersoch). Turn right in Llanbedrog, joining the B4413. Go on through Mynytho, and stay on the road until reaching Botwnnog. Turn right in the centre of the village, up a hill and the School will be located on your right.

Porth Neigwl

Follow the A499 out of Pwllheli (signposted Abersoch). Once in Abersoch, Turn right by "Land and Sea". After about half a mile, turn left for Llangian and keep going until reaching Llanengan. Turn left at the crossroads, and keep going until you reach Porth Neigwl. The car park will be on your left.

Felin Uchaf

Follow the A499 out of Pwllheli, taking a right in Llanbedrog to get onto the B4413 heading for Aberdaron. Continue on this road for around 10 miles, heading as far as Rhoshirwaun. In Rhoshirwaun, pass the garage and take the next left signposted Pencaerau - just past the old chapel on the left. After a sharp right hand bend you'll see a post box on the right, turn left. Felin Uchaf is on the next right hand bend.

Mynydd Carnguwch

Follow the A499 towards Pwllheli. Turn right to join the B4417 (signposted Nefyn), and continue on through Llanaelhaearn. After around 2 miles, take the first left on the approach to Llithfaen, and then left at the crossroads. Follow the road over three cattle grids.



Cystadleuaeth Tynnu Lluniau AHNE Llŷn

Oherwydd bod hanner can mlynedd ers dynodi Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Llŷn eleni, mae'r Uned AHNE yn cynnal cystadleuaeth tynnu lluniau fel rhan o'r dathliadau. Rydym yn edrych am luniau o'r ardal sydd yn arddangos dawn greadigol, cyfansoddiad gwreiddiol a linc gref â thema'r gystadleuaeth.

Mae mynediad i'r gystadleuaeth yn rhad ac am ddim, ac yn agored i bawb. Cewch ddefnyddio camera arferol, neu gamera digidol fel y dymunwch. Fodd bynnag, mae'r gystadleuaeth wedi'i hanelu at y cyhoedd, ac ni ddylai ffotograffwyr proffesiynol ymgeisio. Bydd y buddugwyr yn cael eu dewis gan feirniad annibynol ac bydd arddangosfa o'r goreuon yn cael ei chynnal ar ddiwedd y gystadleuaeth.

Thema'r gystadleuaeth:

Rhinweddau Llŷn. Gall hyn gynnwys golygfeydd o'r tirlun, arfordir, bywyd gwyllt, olion hanesyddol, diwylliant a chymuned ayb.

Categoriâu:

Ieuenctid: Agored i rai sydd yn 17 neu iau ar 27/10/2006

Oedolion: Agored i bawb sydd yn 18 neu hŷn ar 27/10/2006

Gwobrau:

Ieuenctid

Iaf: Chwaraewr MP3

2il: Tocyn Anrheg gwerth £60 i Barc Glasfryn, Llanaelhaearn

3ydd: Tocyn anrheg gwerth £40 i'w wario yn Llŷn Sports, Pwllheli

Oedolion

Iaf: Taith Teulu i Ynys Enlli (drwy garedigrwydd Ymddiriedolaeth Enlli)

2il: Cinio dydd Sul i 4 yng ngwesty 3* Porth Tocyn, Abersoch

3ydd: Tocyn Anrheg gwerth £50 i'w wario yn siop Alcatraz, Pwllheli.

Os ydych yn dymuno cystadlu, mae angen i chi gwblhau ac arwyddo ffurflen gais a'i gyrru gyda'ch llun(iau) i'r cyfeiriad ar waelod y ffurflen **erbyn 27ain o Hydref 2006**. Gofynnir nad yw'r lluniau yn fwy na maint A4 ac eich bod yn nodi eich enw, a theitl y llun, ar ei gefn.

Rheolau'r Gystadleuaeth

1. Dyddiad cau'r gystadleuaeth yw: 27ain Hydref, 2006
2. Bydd canlyniad y gystadleuaeth yn cael ei gyhoeddi yn y wasg leol.
3. Ni chaniateir mwy na tri llun gan bob ymgeisydd.
4. Bydd y lluniau yn cael eu beirniadu o fewn dau gategori: Ieuenctid (ymgeiswyr sydd yn 17 ac iau ar 27/10/06) ac Oedolion (Unrhyw un sydd 18 a drosodd ar 27/10/06)
5. Ni chaniateir defnyddio rhaglenni megis 'Photoshop' i addasu'r lluniau.
6. Gofynnir bod y gwaith heb ei gyhoeddi ar unrhyw adeg.
7. Wrth gyflwyno llun i'r gystadleuaeth, mae'r ymgeisydd yn:
 - a) Cytuno i'w gwaith gael ei arddangos mewn arddangosfa yn ystod blwyddyn dathliadau'r AHNE.
 - b) Cytuno i'w gwaith gael ei ddefnyddio yn y dyfodol gan Gyngor Gwynedd, i bwrpas hyrwyddo AHNE Llŷn.



Llŷn AONB Photography Competition

It is 50 years since the designation of Llŷn as an AONB this year, and to celebrate, the AONB Unit are holding a photography competition. We are looking for photographs of the area which display a creative talent, original composition and a strong link with the competition's theme.

Entry to the competition is free of charge, and is open to everyone. You can use a digital or traditional film camera as you wish. However, the competition is aimed at the public, and professional photographers should not enter. The winners will be chosen by an independent judge, and an exhibition of the best photographs will be held at the end of the competition.

Theme of the competition:

Special Qualities of Llŷn. This can include views of the landscape, coastline, wildlife, historical remains, culture, community etc.

Categories:

Adult: Open to all of 18 years and over on the 27/10/2006

Youth: Open to anyone 17 years or under on 27/10/2006

Prizes

Youth

1st: MP3 Player

2nd: Gift token worth £60 to Glasfryn Adventure Park, Llanaelhaearn

3rd: Gift token worth £40 to spend in Llŷn Sports, Pwllheli

Adult

1st: Family Trip to Bardsey (through the generosity of the Enlli Trust)

2nd: Sunday lunch for 4 in the Porth Tocyn 3* Hotel, Abersoch

3rd: Gift token worth £50 to spend in Alcatraz clothes shop, Pwllheli

If you wish to compete, you will need to complete and sign an application form, sending it along with your photo(s) to the address at the bottom of the form **by the 27th of October 2006**. We ask that the photographs are no larger than A4, and that you note your name and the title of the photograph on the back of each photo.

Competition Rules

1. Closing date for the competition is 27th October 2006
2. The results of the competition will be announced in the local press. This decision will be final.
3. We will allow no more than three photographs per entrant.
4. The photographs will be judged in two categories: Adult (Entrants 18 or over on 27/10/2006) and Youth (Entrants who are 17 or younger on 27/10/2006)
5. We prohibit the use of programs such as 'Photoshop' to manipulate digital photographs.
6. Entries must be previously unpublished work.
7. By entering work into the competition the entrant agrees to:
 - a) Allow their work to be exhibited during the AONB 50th Anniversary Year
 - b) Agree that their work may be used by Gwynedd Council in the future for the purpose of promoting the AONB



Cystadleuaeth Tynnu Lluniau Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Llŷn

Ffurflen Gais

Cwblhewch y ffurflen a gyrrwch gyda'ch llun(iau).

Enw:

Cyfeiriad:

.....
.....

Cyfeiriad e-bost: Rhif Ffôn:

Dyddiad Geni:

Oedolion

Ieuenctid

Teitl Llun 1:

Teitl Llun 2:

Teitl Llun 3:

Rwyf yn cadarnhau mai fy ngwaith i yw'r llun(iau) amgaeedig, ac rwyf yn cytuno i dermau, amodau a rheolau'r gystadleuaeth:

Llofnod:



I'w chwblhau a'i gyrru i:

Uned Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol,

Gwasanaeth Cynllunio a Thrafnidiaeth,

Cyfadran Amgylchedd,

Cyngor Gwynedd,

Swyddfa Ardal Dwyfor,

Pwllheli,

Gwynedd.

LL53 5AA

Llyn Area of Outstanding Natural Beauty Photography Competition

Application Form

Please fill out and send with your photo(s).

Name:

Address:

.....

.....

Email address: **Phone No:**

Date of Birth:

Adult

Youth

Title Photo 1:

Title Photo 2:

Title Photo 3:

I confirm that the enclosed image(s) are my own unpublished work, and I agree to the terms and conditions set out in the Competition Rules:

Signed:



To be completed and sent to:

Area of Outstanding Natural Beauty Unit,
Planning and Transportation Service,
Environment Directorate,
Gwynedd Council,
Dwyfor Area Office,
Pwllheli,
Gwynedd.
LL53 5AA

